

CLSMODD1

CLSMEANS1

-Y Canllaw-

- The Guide -

Sut i lenwi Ffurflen Aseu Ariannol CLSMODD 1 - Tystysgrif Ariannu CLS

*How to complete CLSMEANS 1
Financial Assessment Form - CLS Funding Certificate*

Pryd y mae'n rhaid i mi lenwi Ffurflen CLSMODD1?

When do I need to fill in Form CLSMEANS1?

Rhaid i chi lenwi ffurflen **CLSMODD1** os ydych chi'n byw yn y Deyrnas Unedig ac rydych yn hyn nag 16 ac nid ydych yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Warant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth neu eich bod yn gwneud cais ar ran person sy'n iau nag 16 oed â chanddynt gynilion o fwy na £2,500 neu incwm rheolaidd.

You need to fill in **CLSMEANS1** if you live in the United Kingdom and are over 16 and not on Income Support, income-based Jobseeker's Allowance or Guarantee State Pension Credit or you are applying on behalf of a person under 16 years old with savings of over £2,500 or a regular income.

- Os ydych yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Warant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth, rhaid i chi lenwi ffurflen **CLSMODD2**.

If you are on Income Support, income-based Jobseeker's Allowance or Guarantee State Pension Credit you need to fill in **CLSMEANS2**.

- Os ydych yn byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig rhaid i chi lenwi ffurflen **CLSMODD3**.

If you live outside the United Kingdom you need to fill in **CLSMEANS3**.

- Os ydych yn gwneud cais ar ran person sy'n iau nag 16 oed â chanddynt gynilion sy'n llai na £2,500 a heb unrhyw incwm rheolaidd eu hunain, rhaid i chi lenwi ffurflen **CLSMODD4**

If you are applying for someone under 16 years old who has savings under £2,500 and no regular income of their own you need to fill in **CLSMEANS4**.

- **Os ydych eisoes yn cael arian cyhoeddus ac mae eich amgylchiadau ariannol wedi newid**, llenwch ffurflen **CLSMODD1** a'i dychwelyd i swyddfa ranbarthol y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Os ydych chi neu'ch partner erbyn hyn yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, peidiwch â llenwi ffurflen **CLSMODD1**. Yn hytrach, llenwch ffurflen **CLSMODD2**.

If you are already getting public funding and your financial circumstances have changed, fill in form **CLSMEANS1** and return it to the Legal Services Commission regional office. If you or your partner are now receiving Income Support or income-based Jobseeker's Allowance, do not fill in form **CLSMEANS1**. Fill in form **CLSMEANS2** instead.

Sut ydw i'n llenwi Ffurflen CLSMODD1?

How do I fill in Form CLSMEANS1?

Trefnir y llyfryn hwn i'ch helpu i lenwi Ffurflen **CLSMODD1**.

This booklet is designed to help you fill in the Form **CLSMEANS1**.

Mae'n bwysig ateb pob cwestiwn ar y ffurflen, oni bai bod y cyfarwyddiadau'n dweud wrthy'ch y gallwch anwybyddu'r cwestiwn.

It is important to answer all the questions on the form, unless the instructions tell you that you can ignore the question.

Os nad ydych yn ateb yr holl gwestiynau perthnasol, ni allwn roi arian cyhoeddus i chi. Byddwn yn anfon y ffurflen yn ôl atoch i chi gael ei llenwi'n gywir. Cofiwch, ni all eich cyfreithiwr wneud unrhyw waith tan i'r arian cyhoeddus gael ei ddyfarnu.

If you do not answer all the relevant questions, we cannot grant you public funding. We will return the form to you for you to complete properly. Remember, your solicitor cannot do any work until public funding is granted.

Peidiwch â chroesi allan, newid nag ysgrifennu 'dim yn gymwys' i unrhyw un o'r cwestiynau os gwelwch yn dda.

Please do not cross out, alter or write "not applicable" to any of the questions.

Sicrhewch os gwelwch yn dda fod y wybodaeth a roddir gennych yn gywir. Os ydych yn rhoi gwybodaeth ffug neu nad ydych yn dweud wrthym am unrhyw ran o'ch cyllid, gellir diddymu unrhyw arian cyhoeddus a ddyfarnwyd h.y. ei ddileu, a bydd yn ofynnol i chi ad-dalu holl gostau eich cyfreithiwr.

Please ensure that the information you supply is correct. If you give us false information or you do not tell us about any part of your finances, any public funding granted may be revoked i.e. cancelled and you will be required to repay all of your solicitor's costs.

Mae hefyd yn ddyletswydd arnoch ddweud wrthym os yw eich amgylchiadau ariannol yn newid. Os yw eich amgylchiadau'n newid ac nad ydych yn rhoi gwybod i ni, gellir diddymu unrhyw arian cyhoeddus a ddyfarnwyd h.y. ei ddileu, a bydd yn ofynnol i chi ad-dalu holl gostau eich cyfreithiwr.

Os rhoddir arian cyhoeddus i chi, byddwn yn gwirio nad yw eich amgylchiadau wedi newid.

You are also under a duty to tell us if your financial circumstances change. If your circumstances change and you do not tell us, any public funding granted may be revoked i.e. cancelled and you will be required to repay all of your solicitor's costs.

If you are granted public funding, we will check that your circumstances have not changed.

Eich Manylion Chi a'ch Partner

You and Your Partner's Details

A1 Rhaid i ni wybod ai'ch partner yw'r gwrthwynebydd

We need to know if your partner is the opponent

- Rhaid i ni wybod a ydych wedi gwahanu â'ch partner neu ai'ch partner yw'r gwrthwynebydd yn yr achos yr ydych yn ceisio cymorth cyfreithiol ar ei gyfer.

We need to know if you have separated from your partner or if your partner is the opponent in the proceedings for which you need legal aid.

- Os eich partner yw'r gwrthwynebydd yn yr achos hwn, llenwch y ffurflen gan roi manylion amdanoch chi'ch hun, peidiwch â chynnwys manylion eich partner.

If your partner is the opponent in these proceedings, fill in the form giving details about yourself, do not include your partners details.

Amdanoch chi

About you

A2 Manylion ariannol pwy i'w cynnwys

Whose financial details to include

- Os oes gennych bartner ac nad ydych wedi gwahanu, atebwch bob rhan o'r adran hon, gan fod modd ariannol eich partner yn cael ei gynnwys yn eich asesiad. Os nad oes gennych bartner, rhowch eich manylion chi'n unig

If you have a partner and you are not separated from them, please answer all parts of this section, because your partner's means are included in your assessment. If you do not have a partner, please just give us your details.

- Mae partner yn golygu rhywun rydych yn briod ag ef/hi neu fel arfer yn byw gydag ef/hi fel cwpwl. Mae hyn yn cynnwys os ydych yn byw ar wahân yn sgil, er enghraifft, salwch, carchariad neu weithio oddi cartref (ac nid am fod y berthynas wedi chwalu). Os ydych wedi gwahanu â'ch partner ac rydych yn byw gyda rhywun arall, rhowch fanylion y person rydych yn byw gydag ef/hi yn awr.

By partner we mean someone you are married to or normally live with as a couple. This includes if you are living apart due to, for example, illness, imprisonment or working away (and not because the relationship has broken down). If you are separated from your partner and living with someone else, please give details of the person you are living with now.

Incwm - cyflogaeth

Income - employment

A3 Rhaid i ni wybod am eich cyflogaeth

We need to know about your employment

- Rhaid i ni wybod beth rydych chi'n ei ennill, felly rhaid i chi atodi Ffurflen L17 at CLSMODD1 am bob un o'ch cyflogwyr chi a'ch partner.

We need to know what you earn, so you must attach a Form L17 to CLSMEANS1 for each of your and your partner's employers.

A4 Rhaid i ni wybod faint o gostau rydych chi'n eu talu oherwydd eich gwaith

We need to know how much you pay out because of your work

- Rydym yn caniatáu costau rhesymol y mae'n rhaid i chi eu gwario ar ffioedd gofal plant os nad ydych chi neu'ch partner yn gallu gofalu am eich plant tra rydych chi yn y gwaith. Mae'r lwfans hwn ar gael i bobl hunangyflogedig hefyd.

We allow reasonable costs that you have to spend on childminding fees if you or your partner cannot look after your children while at work. This allowance is also available to the self employed.

- Telir lwfans safonol ar gyfer treuliau eraill sy'n ymwneud â gwaith e.e. costau teithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith (gweithwyr yn unig).

A Standard allowance is made for other work related expenses e.g. travel to and from work (employees only).

A5 Os ydych yn absennol o'r gwaith ar hyn o bryd, rhaid i ni wybod pryd y byddwch yn dychwelyd i'r gwaith

If you are off work at the moment, we need to know when you will return

- Os nad ydych yn gweithio oherwydd salwch, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer tâl salwch statudol neu fudd-dal analluogrwydd, y mae'n rhaid i ni eu cymryd i ystyriaeth.

If you are not working due to illness, you may be eligible for statutory sick pay or incapacity benefit, which we must take into account.

- Rhaid i chi roi eich amcangyfrif gorau i ni o ran pryd y byddwch yn dychwelyd i'r gwaith. Os nad ydych yn dweud wrthym a'ch bod wedi bod yn absennol o'r gwaith am fwy na chwe wythnos, byddwn yn cymryd yn ganiataol y byddwch yn absennol o'r gwaith am uchafswm o fis ac, felly, byddwn yn asesu eich incwm misol fel eich tâl / cyflog arferol.

You must give us your best estimate of when you will return to work. If you do not tell us and you have been off work for over six weeks, we will assume that you will be off work for maximum of a month and therefore assess your monthly income as being your normal wages / salary.

Incwm - budd-daliadau o fathau eraill

Income - benefits in kind

A6

Beth yw budd-daliadau o fathau eraill?

What are benefits in kind?

Budd-daliad o fath arall yw unrhyw beth a gewch chi gan eich cyflogwr nad yw'n arian. Er enghraifft:

Benefit in kind is anything that you get from your employer that is not money. Examples are:

● **Car cwmni**

Company car

● **Gofal plant am ddim**

Free childcare

● **Petrol am Ddim**

Free Petrol

● **Talebau Gofal Plant**

Childcare Vouchers

● **Llety**

Accommodation

● **Yswiriant Iechyd**

Health Insurance

● **Talebau Cinio**

Luncheon Vouchers

● **Morgeisi/benthyciadau cymorthdaledig**

Subsidised mortgages/loans

Bydd eich cyflogwr yn rhoi gwybod i ni am werth trethadwy unrhyw fudd-daliadau o fath arall ar Ffurflen L17.

Your employer will tell us the taxable value of any benefits in kind on Form L17.

Incwm - budd-daliadau'r wladwriaeth

Income - state benefits

A7

Rhaid i ni wybod am fudd-daliadau'r wladwriaeth rydych chi neu'ch partner yn eu cael

We need to know about the state benefits that you or your partner get

- Mae'r rhan fwyaf o fudd-daliadau'r wladwriaeth yn cyfrif fel incwm yn ein hasesiad.
Most state benefits count as income in our assessment.
 - Os ydych yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Warant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth, byddwch yn ariannol gymwys am gyllid cyhoeddus, ac ni ddylech lenwi Ffurflen CLSMODD1, a dylai eich cyfreithiwr roi Ffurflen CLSMODD2 i chi i'w llenwi.
If you are on Income Support, income-based Jobseeker's Allowance or Guarantee State Pension Credit you will financially qualify for public funding and you should not fill out Form CLSMEANS1, your solicitor should give you Form CLSMEANS2 to fill in.
 - Os ydych yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau canlynol, mae angen arnoch roi gwybod amdanynt i ni, ond caiff y budd-daliadau hyn eu hanwybyddu wrth i ni gyfrifo eich incwm.
If you get any of the following benefits you need to tell us about them but these benefits will be ignored when we calculate your income.
- **Bonws Dychwelyd i'r Gwaith**
Back to Work Bonus
 - **Lwfans Gweini**
Attendance Allowance
 - **Lwfans Gweini Cyson**
Constant Attendance Allowance
 - **Lwfans Anabledd Difrifol**
Severe Disablement Allowance
 - **Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol**
Exceptionally Severe Disablement Allowance
 - **Lwfans Gofalwyr**
Carers Allowance
 - **Unrhyw Bensiwn Rhyfel**
Any War Pension
 - **Lwfans Byw i'r Anabl**
Disability Living Allowance
 - **Taliad o'r Gronfa Gymdeithasol**
Payment from the Social Fund
 - **Taliad gan Gronfa Gofal yn y Gymuned**
Payment from the Care In The Community Fund

A8 Rhaid i ni wybod os ydych chi'n hunangyflogedig neu'n gyfarwyddwr cwmni

We need to know if you are self-employed or a company director

- Os ydych chi'n gyfarwyddwr cwmni, bydd arnom angen Ffurflen CLSMODD1C a chyfrifon pob cwmni rydych yn gyfarwyddwr arnynt.
If you are a company director, we will need Form CLSMEANS1C and company accounts for each company of which you are a director.
- Os ydych chi'n hunangyflogedig neu mewn partneriaeth, fel arfer, byddwn yn seilio ein hasesiad ar eich elw net yn ystod y flwyddyn dreth ddiwethaf. Ystyr elw net yw elw ar ôl didynnu'r costau y mae eu hangen i ennill incwm i'r busnes ond cyn i dreth gael ei didynnu. Felly, bydd angen i chi lenwi Ffurflen CLSMODD1A a/neu CLSMODD1B. Ceisir gwybodaeth ychwanegol ar y ffurflenni hyn, a dylech ddarllen y rhain yn ofalus gan eu bod yn dweud wrthy ch pa ddogfennau / ffurflenni eraill i'w hanfon gyda'ch cais.
If you are self-employed or in partnership, we will normally base our assessment on your net profit in the last tax year. Net profit means profit after deductions of the expenses needed to earn the business income but before tax is taken off. We will therefore need you to complete Form CLSMEANS1A and/or CLSMEANS1B. Additional information is requested on these forms and you should read these carefully as they tell you what other documents / forms to send with your application.
- Os ydych chi'n is-gontractwr, mae arnom angen eich ffurflen SC60 ar gyfer y 6 mis diwethaf hefyd.
If you are a sub-contractor, we need your last 6 months SC60 form as well.

Incwm - arian arall

Income - other money

B1 Rydym yn cyfrif cynhaliadaeth a delir i chi yn incwm

We count maintenance paid to you as income

- Byddwn yn cymryd yn ganiataol bod unrhyw gynhaliadaeth a delir i chi yn ddi-dreth. Os ydych yn talu treth ar daliadau cynhaliadaeth, rhowch wybod i ni faint os gwelwch yn dda yn yr adran Gwybodaeth Ychwanegol ar dudalen 13 CLSMODD1.

We will assume that any maintenance payments to you are non-taxable. If you are paying tax on maintenance payments, please let us know how much in the Extra Information section on page 13 of the CLSMEANS1.

B2 Arian o unrhyw le arall

Money from anywhere else

- Ystyr hyn, yn llythrennol, yw unrhyw arian arall a dderbynnir gennych chi neu'ch partner.
This means literally any other money that is received by you or your partner.
- Gall y rhain fod yn bethau fel:
These might be things like:
- Rhent gan denantiaid a lletywyr. (Os ydych yn datgan yr arian hwn i Gyllid y Wlad mae'n cyfrif fel incwm hunangyflogedig, felly rhaid i chi lenwi tudalen 5 o Ffurflen CLSMODD 1. Os na fyddwch yn llenwi tudalen 5 byddwn yn tybio nad ydych yn talu treth ar yr incwm hwn).
Rent from tenants, lodgers or boarders. (If you declare this money to the Inland Revenue this counts as self-employed income so you must fill in page 5 of the CLSMEANS 1. If you do not complete page 5 we will assume that you do not pay tax on this income).
- Grantiau/benthyciadau addysgiadol.
Educational grants/loans.
- Taliadau diswyddo.
Redundancy payments.
- Arian gan ffrindiau neu berthnasau.
Money from friends or relatives.
- Pensiynau / Blwydd-daliadau
Pensions / Annuities

B3 Yr hyn a olygwn gan unrhyw un sy'n darparu cymorth i chi neu'ch teulu

What we mean by anybody providing support for you or your family

- Weithiau mae pobl yn derbyn cymorth gan bobl eraill nad yw'n gymorth ariannol. Efallai y bydd rhywun yn talu eich biliau neu'n gadael i chi ddefnyddio eu car am ddim. Gallai hyn fod yn berson, yn gwmni, yn sefydliad gwirfoddol neu'n gronfa ymddiriedolaeth.

Sometimes people have support from others that is not money. Someone might pay your bills or allow you free use of their car. This could be a person, a company, a voluntary organisation or a trust fund.

- Os ydych yn derbyn arian neu gefnogaeth gan gronfa ymddiriedolaeth rhaid i chi anfon copi o'r ddogfen ymddiriedolaeth, wedi'i hatodi at Ffurflen CLSMODD1. Os na chaiff y ffurflen hon ei hatodi, byddwn yn gofyn amdani a chaiff eich cais am arian cyhoeddus ei oedi.

If you receive money or support from a trust fund you must send a copy of the trust deed, attached to Form CLSMEANS1. If this is not attached we will request it and your application for public funding will be delayed.

- Os yw'r ffigur rydych yn debygol o'i gael eleni yn wahanol i'r un a gawsoch y llynedd, dywedwch wrthym faint a pham y mae wedi newid yn yr adran Gwybodaeth Ychwanegol ar dudalen 13 o'r CLSMODD1

If the figure you are likely to get this year is different from what you received last year, please tell us how much and why it has changed in the Extra Information section on page 13 of the CLSMEANS1.

Pobl eraill

Other people

B4 Rhaid i ni wybod am y bobl sy'n byw gyda chi

We need to know about people who live with you

- Gallwn ganiatáu lwfansau o'ch incwm at gost darparu ar gyfer eich partner, plant neu unrhyw berthnasau sy'n dibynnu arnoch.

We can make allowances from your income for the cost of providing for your partner, children or any relatives who depend on you financially.

- Byddwn yn tybio eich bod yn derbyn budd-dal plant/budd-dal rhiant unigol ar gyfer plant o dan 16 oed neu o dan 19 oed ac mewn addysg llawn amser, ond nid addysg uwch.

We will assume that you receive child benefit/lone parent benefit for children under 16 or under 19 and in full-time, but not higher education.

- Mae angen arnom ni wybod os yw eich plant yn cael grant tuag at eu haddysg gan y bydd hyn yn effeithio ar y lwfans a roddwn.

We need to know if your children get a grant towards their education because this will affect the allowance we give.

B5 Rhaid i ni wybod a ydych chi neu eich partner yn talu unrhyw gostau cynhaliath

We need to know if you or your partner pay any maintenance

- Gallwn ganiatáu lwfans am unrhyw gostau cynhaliath rydych yn eu talu i blentyn neu gynbartner, cyhyd â'n bod yn sicr eich bod yn gwneud taliadau rheolaidd o hyd.

We can make an allowance for any maintenance that you pay to a child or ex-partner, as long as we are sure that you are making regular payments.

- Os ydych chi'n talu cynhaliath i gyn-briod, byddwn yn tybio eich bod yn cael gostyngiad treth ar hyn. Os nad ydych, dywedwch wrthym yn yr adran Gwybodaeth Ychwanegol ar dudalen 13 o Ffurflen CLSMODD1.

If you are paying maintenance to a former spouse we will assume that you are getting tax relief on this. If you are not, please tell us in the Extra Information section on page 13 of Form CLSMEANS1.

B6 Rhaid i ni wybod am ble rydych yn byw*We need to know about where you live*

Mae angen arnom ni wybod pa fath o lety rydych yn byw ynddo a hefyd am unrhyw eiddo arall rydych chi neu'ch partner yn berchen arno neu y mae gennych fuddiant ynddo.

We need to know what type of accommodation you live in and also about any other property that you or your partner own or have an interest in.

- Os ydych chi'n berchen ar eich cartref eich hun:

If you own your house:

- Ni chaiff y £100,000 cyntaf o ecwiti yn eich cartref ei gyfrif yn gyfalaf gwario.

The first £100,000 of equity in your home is not counted as disposable capital.

- Mae ecwiti yn golygu gwerth gwerthu eich cartref llai unrhyw forgais sy'n ddyledus (hyd at gyfanswm o £100,000). Byddwn yn cymharu eich prisiad chi o'r ty â'n prisiad annibynnol ni, a gallwn gymryd y ffigur uchaf.

By equity we mean the sale value of your house less any outstanding mortgage (up to a maximum of £100,000). We will compare your valuation of the house with our independent valuation and may take the higher figure.

- Caniatawn lwfans yn eich incwm ar gyfer ad-daliadau ar £100,000 cyntaf unrhyw forgais, gan gynnwys taliadau tuag at unrhyw bolisi gwaddol sy'n gysylltiedig â'ch morgais.

We make an allowance in your income for the repayments on the first £100,000 of any mortgage, including payments towards any endowment policy linked to your mortgage.

- Os ydych chi'n rhentu eich cartref, caniatawn lwfans rhesymol o'ch incwm ar gyfer unrhyw rent a delir gennych.

If you rent your home, we make a reasonable allowance from your income for any rent you pay.

- Os ydych chi'n byw gartref gyda'ch rhieni a'ch bod yn talu rhent i'ch rhieni, caniatawn lwfans ar gyfer hyn

If you live at home with your parents and you pay rent to your parents we make an allowance for this.

- Os nad oes gennych unrhyw ddibynyddion yn byw gyda chi, mae uchafswm y byddwn yn ei ganiatáu yn yr asesiad.

If you have no dependants living with you there is a maximum sum we will allow in the assessment.

- Os nad ydych yn dweud wrthym am ble rydych yn byw ac yn cwblhau pob cwestiwn a ofynnir i chi, byddwn yn dychwelyd y ffurflen hon atoch a chaiff eich cais am gyllid cyhoeddus ei oedi.

If you do not tell us about where you live and complete all questions you are asked we will return this form to you and your application for public funding will be delayed.

Cyfalaf ac asedau eraill*Capital and other assets***C1 Pa fath o gyfalaf sy'n cael ei gyfrif gennym***What sort of capital do we count*

Mae angen arnom ni wybod am bob math o gyfalaf yr ydych chi neu'ch partner yn berchen arnynt.

We need to know about all forms of capital that you or your partner own.

C2 Cydgyfrifon

Joint accounts

- Mae angen arnom ni wybod am bob math o gyfalaf yr ydych chi neu'ch partner yn berchen arnynt.
If you have a joint account and your partner's means are also being assessed we will count the total in the account.

- Os nad yw modd eich partner yn cael ei asesu (ee os ydych chi wedi gwahanu) byddwn yn cynnwys y cyfanswm yn y cyfrif o hyd, oni bai eich bod yn darparu tystiolaeth nad oes gennych fynediad at y cyfanswm cyfan.

If your partner's means are not being assessed (eg if you are separated) we will still include the total amount in the account unless you provide proof that you do not have access to the whole amount.

C3 Buddsoddiadau cyfnod penodol

Fixed term investments

- Tybiwn y gallwch sylweddu gwerth cyfalaf presennol y buddsoddiad. Os nad yw hyn yn wir, darparwch ddogfennau sy'n dangos telerau ac amodau'r buddsoddiad.

We assume that the current capital value of the investment can be realised by you. If this is not the case please provide documents that show the terms and conditions of the investment.

C4 Unrhyw eiddo arall rydych chi'n berchen arno

Any other property you own

- Os rydych chi'n berchen ar unrhyw eiddo arall nad ydych yn byw ynddynt, byddwn yn cyfrif unrhyw ecwiti yn gyfalaf. Efallai na fyddwn yn caniatáu unrhyw forgais sy'n ddyledus yn llawn os ydym eisoes wedi caniatáu morgais ar eich prif eiddo.

If you own any other properties which you do not live in we will count any equity as capital. We may not allow any outstanding mortgage in full if we have already allowed a mortgage on your main property.

C5 Yswiriant bywyd neu bolisiau gwaddol

Life assurance or endowment policies

- Mae 'gwerth benthyciad' yn golygu'r swm y bydd y cwmni y mae gennych bolisi ganddo ef yn ei fenthyg ar ei warant. Bydd y cwmni perthnasol yn gallu rhoi'r ffigur hwn i chi.

By 'loan value' we mean the amount the company with whom you have taken the policy will lend on the security of it. The relevant company will be able to give you this figure.

C6 Ceir

Cars

- Cynhwyswn werth ceir fel cyfalaf mewn rhai amgylchiadau. Os gwnawn hynny yn eich achos chi, cewch wybod pan roddir gwybod i chi am ganlyniad eich asesiad.

We include the value of cars as capital in some circumstances. If we do so in your case, you will be informed when we notify you of the result of your assessment.

C7 Buddiannau mewn ymddiriedolaeth

Interests in a trust

- Cyfrifir buddiant mewn ymddiriedolaeth fel cyfalaf ac mae arnom angen copi o'r weithred ymddiriedolaeth i brisio'r buddiant hwnnw.

An interest in a trust is counted as capital and we need a copy of the trust deed to value that interest.

Ynglyn â'ch achos cyfreithiol - am beth mae'r anghydfod

About your legal proceedings - what is the dispute about

C8 Rhaid i ni wybod yr hyn yr ydych chi neu eich gwrthwynebydd yn dadlau yn ei gylch

We need to know what you or your opponent are disputing

- Nid ydym yn cyfrif gwerth unrhyw asedau sy'n destun anghydfod yn yr achos lle nad yw eich buddiant yn yr asedau hyn yn rhagori ar £100,000, felly os yw eich gwrthwynebydd neu chi'n dadlau ynghylch perchnogaeth rhywbeth personol, rhaid i ni wybod amdano.

We do not count the value of any assets that are in dispute in the case where your interest in these assets does not exceed £100,000, so if your opponent or you are in dispute about the ownership of something specific we need to know about it.

Gwybodaeth ychwanegol

Extra information

- D1**
- Rydym yn asesu yr hyn y bydd eich incwm yn debygol o fod yn ystod y mis nesaf. Os ydych yn ymwybodol o ddigwyddiad sydd ar ddigwydd yn y 12 mis nesaf a fydd yn effeithio ar eich incwm neu gyfalaf, dylech ddweud wrthym fel y gallwn adolygu eich amgylchiadau yr adeg honno yn ôl y gofyn.

We are assessing what your income is likely to be in the next month. If you know of an event that is going to happen in the next 12 months which will affect your income or capital, you should tell us so that if necessary we can review your circumstances at that time.

- Dylech ddefnyddio'r adran hon i ddweud wrthym am unrhyw beth yn eich amgylchiadau na chynhwyswyd yn rhywle arall ar Ffurflen CLSMODD1.

You should use this section to tell us about anything in your circumstances that has not been covered elsewhere on Form CLSMEANS1.

Gwneud cais ar ran rhywun arall

Applying for someone else

D2 Rhaid i ni wybod a ydych yn gwneud cais ar ran rhywun arall

We need to know if you are applying for someone else

- Os ydych chi'n gwneud cais ar ran rhywun arall, mae angen arnom amgylchiadau ariannol y person yr ydych yn gwneud cais ar ei ran.

If you are applying for someone else, it is the financial circumstances of the person for whom you are applying that we need.

- Rhaid i ni wybod eich enw, cyfeiriad a rhif ffôn fel y gallwn gysylltu â chi i ofyn cwestiynau yn ôl y gofyn.

We need to know your name, address and telephone number so that we can contact you if we need to ask any questions.

Gwybodaeth ychwanegol

Extra information

- Rhaid i chi ddychwelyd y ffurflen hon i'ch cyfreithwyr. Byddant yn ei hanfon atom gyda'ch cais. (Gwiriwch eich bod wedi atodi pob dogfen arall y gofynnem amdanynt at ffurflen CLSMODD1).

You must return this form to your solicitors. They will send it to us with your application. (Please check that you have attached all the other documents that we have asked for to the CLSMEANS1).

- Rhaid anfon atom y ffurflen a'r holl ddogfennau eraill mae eu hangen arnom cyn pen dau fis o'r dyddiad y llofnodir y ffurflen. Fel arall, byddwn yn gwrthod y cais.

The form and all other documents we need must be sent to us within two months of the date the form is signed. Otherwise we will reject the application.

- Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthyfych a ddyfarnwyd arian cyhoeddus, sut y cawsoch eich asesu ac a fydd yn rhaid i chi dalu cyfraniad tuag at gost eich achos.

We will write to you to tell you if public funding has been granted, how you have been assessed and whether you will have to pay a contribution towards the cost of your case.

